Asesiad o'r Effaith Gronnol ar Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

**Cefndir**

Mae ardal y Cyngor yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol a gwledig, ac â phoblogaeth o tua 139,178. (Ffynhonnell data: Gwefan ONS Tabl KSI01UK Cyfrifiad 2011).

Y prif drefi yw Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr boblogaeth o tua 15,000 o fewn dwy filltir i'r dref (ffynhonnell: Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr).

Mae rhai strydoedd canol y dref ar gyfer cerddwyr yn unig. Ers dechrau'r Ddeddf Trwyddedu 2003 ym mis Tachwedd 2005, mae Heol y Dderwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham a Stryd Nolton wedi bod yn destun polisi arbennig i leihau effaith gronnol safleoedd trwyddedig.

**Rhesymau dros y Polisi**

Mae effaith gronnol nifer mawr o safleoedd trwyddedig yn tanseilio amcanion trwyddedu:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Atal Niwsans Cyhoeddus
- Diogelwch y Cyhoedd

**Tystiolaeth**

Prif ffactor ffurfio asesiad yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru. Mae adroddiad Heddlu De Cymru yn cydnabod:

*"Erys bod gormod o safleoedd trwyddedig yn dal i fod yn yr ardal ddaearyddol gymharol fach hon, o fewn yr ardal hon mae dau safle sydd â thrwydded tan 4am ac un safle â thrwydded tan 4.30am, sy'n creu lefel uchel o ymwelwyr yn ystod oriau man y bora."*

Er gwybodaeth yn unig, mae'r canlynol yn rhestr o safleoedd yn y pedwar stryd y soniwyd amdanynt, yn dangos yr amseroedd hwyraf ar gyfer gweithgaredd trwyddedig a ddangosir (lluniaeth hwyr y nos neu werthu alcohol). Crynodeb yn unig ydyw, ac nid yw pob safle ar agor neu yn masnachu fel yn unol ag adroddiad Heddlu De Cymru. Mae'r ddau safle y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad wedi eu hamlygu:

Amser hwyraf ar gyfer gweithgaredd trwyddedig (ffynhonnell cronfa ddata Trwyddedu Cyngor) yn strydoedd canol y dref a enwir

| | | |
|---|---|---|
| Lluniaeth Hwyr y Nos | Stryd Nolton | 0300 |
| Gwerthu alcohol (byrddau a chadeiriau) lleoliad bychan | Stryd Nolton | 0200 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos | Stryd Wyndham | 0100 |

| | | |
|---|---|---|
| Lluniaeth Hwyr y Nos ac alcohol (bwyty) | Stryd y Farchnad | 0100 |
| Clwb Nos (wedi cau) | Stryd Wyndham | 0200 |
| Clwb Nos | Stryd y Farchnad | 0400 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos | Stryd Wyndham | 0400 |
| Clwb Nos | Stryd y Farchnad | 0300 |
| Siop Tecawê | Stryd Wyndham | 0230 |
| Bar | Stryd Nolton | 0130 |
| Tafarn | Stryd Nolton | 0200 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos (bwyty) | Stryd Wyndham | 0200 |
| Lleoliad Cerddoriaeth | Heol y Frenhines | 0400 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos (Bwyty) | Stryd Nolton | 0100 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos | Heol y Dderwen | 0300 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos ac alcohol (bwyty) | Stryd Nolton | 0200 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos | Stryd Nolton | 0100 |
| Bar | Dunraven Place | 0100 |
| Tafarn | Stryd Nolton | 0100 |
| Clwb Nos | Heol y Dderwen | 0430 |
| Tafarn | Dunraven Place | 0100 |
| Tafarn | Stryd y Farchnad | 0100 |
| Clwb Nos | Stryd y Farchnad | 0400 |
| Tafarn | Stryd Nolton | 0100 |
| Tafarn | Heol y Frenhines | 0200 |

Mae Heddlu De Cymru yn datgan o fewn yr adroddiad bod y Polisi Effaith Gronnol wedi effeithio'n uniongyrchol ar y lleihad o droseddau a gofnodwyd o fewn canol y dref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd.

**Tystiolaeth arall a ystyriwyd**

Roedd yr ymgynghoriad statudol hefyd yn cynnwys holiadur i geisio adnabod materion ychwanegol a allai effeithio ar gynnal y Polisi Effaith Gronnol.

Dylid ystyried y sampl bychan o atebion - pymtheg ond mae crynodeb o'r atebion fel a ganlyn:

<u>Pwy atebodd</u>

Aelodau'r cyhoedd – 50%

Partïon eraill â diddordeb – 43% (Gan gynnwys cynrychiolwyr etholedig ar lefel Sir, tref a chymuned)

Deiliaid trwydded – 7%

<u>Materion a adnabuwyd</u>

Nododd 93% o atebwyr y dylai'r Cyngor gynnal y Polisi Effaith Gronnol ar gyfer canol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Prif faterion o bryder yng nghanol y dref:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol (12)/92%
- Taflu sbwriel (12)/92%
- Yfed ar y stryd (7)/54%
- Ymddygiad treisgar (7)/54%
- Baw ar y stryd/darpariaeth toiledau (6)/46%
- Casgliad o yfwyr (6)/46%
- Gweithgareddau troseddol (3)/23%
- Glanhau strydoedd (1)/8%

Dywedodd 69% bod hyn wedi cael effaith arnynt yn ystod yr economïau gyda'r dydd a gyda'r nos tra bod 31% wedi dweud ei fod yn berthnasol i economi'r nos yn unig.

Yn ôl yr holiadur, siopau Tecawê oedd yn cael eu nodi fel y safleoedd mwyaf problemus, wedyn tafarndai a chlybiau, tra bod siopau trwyddedig a bwytai yn cael eu nodi fel rhai sy'n achosi'r nifer lleiaf o broblemau.

Mae naratif atebion ar effaith negyddol safleoedd trwyddedig yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r oriau trwyddedig yn rhy hwyr yn y nos sy'n ychwanegu at y risgiau i'r cyhoedd oherwydd nifer llai o heddlu a mwy o amser i yfed.
- Dim tystiolaeth ffisegol, ond yn ddiweddar, soniwyd ei bod hi'n fwy diogel mynd ar noson allan i Gaerdydd nag i Ben-y-bont ar Ogwr. Tua 2 flynedd yn ôl, ymosodwyd ar fy ffrind wrth geisio mynd i mewn i dacsi.
- Llu o bobl feddw a phobl yn cymryd cyffuriau wrth yr *******yn enwedig yn ystod y dydd.
- Mae gan siopau tecawê y dref broblem gyda phartiwyr yn prynu bwyd yn hwyr yn y nos ac yn cael gwared ar becynnau a chynwysyddion gwag ar ôl bwyta. Problem arall yw bod pobl yn gadael safleoedd trwyddedig gyda gwydrau cwrw llawn neu hanner llawn. Mae nifer o wydrau gwag i'w gweld yn aml ar y palmant, waliau ayyb. ac mae'r rhain yn beryglus a gallant achosi niwed sylweddol i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â nhw.
- taflu sbwriel tu allan i dafarndai a chlybiau. Yfed ar y stryd yn ystod y dydd gyda chaniau sydd wedi eu prynu o'r siop drwyddedig.

**Mesurau eraill a ystyriwyd**

- Cynllun Gwylio Tafarndai
- Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 sy’n rhoi’r pŵer i’r heddlu ei gwneud hi’n ofynnol i berson yn y mannau dynodedig beidio ag yfed alcohol neu i ildio unrhyw alcohol neu gynwysyddion alcohol (ar wahân i gynwysyddion wedi eu selio) sydd ganddynt.
- Darpariaeth o CCTV mewn ardaloedd cyhoeddus
- Pwerau grymuso sydd ar gael i'r Heddlu, Swyddogion Trwyddedu a Swyddogion Safonau Masnach o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Casgliad**

Yn y Man Effaith Gronnol mae’r Awdurdod Trwyddedu’n fodlon bod tystiolaeth i gefnogi parhad y Polisi Effaith Gronnol ac, wedi ystyried mentrau presennol eraill, ei fod yn gymesur a dyma'r mesur mwyaf effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**Cymhwyso'r polisi**

Gan ystyried y Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 y Ddeddf Trwyddedu 2003, mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymgynghori ar fater effaith gronnol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae wedi ystyried safbwyntiau Heddlu De Cymru ac ymatebwyr eraill ac wedi rhoi Polisi Effaith Gronnol ar waith o safbwynt Heol y Dderwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham, a Stryd Nolton (o'i chyffordd â Heol Ewenni, i'w chyffordd â Heol Merthyr Mawr, ond nid yr ardal rhwng Heol Merthyr Mawr a'r gyffordd gyda Heol Cwrt Pen-y-bont ar Ogwr).

Hefyd ystyrir, lle bo cynrychioliadau perthnasol yn cael eu derbyn ar gyfer safleoedd sy'n ffinio â'r ardal Polisi Effaith Gronnus neu safleoedd sy'n agos at yr ardal, a phan fo'r cynrychioliadau hynny yn cael effaith faterol ar yr ardal, yna bydd y polisi'n cael ei gymhwyso os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn dod i'r casgliad resymol y byddai cymeradwyo'r cais penodol hwnnw yn ychwanegu at yr effaith gronnol a ddioddefir yn yr ardal ddiffiniedig.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Datganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2019-2024.

Mae'r Polisi Effaith Gronnol yn berthnasol i geisiadau am y grant a'r amrywiad llawn o Drwyddedau Safle. Nid yw'n berthnasol i Dystysgrifau Safle Clwb na Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

Pan fo'r polisi'n berthnasol, mae'n creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd ceisiadau yn cael eu gwrthod neu'n destun cyfyngiadau pan fo cynrychioliadau perthnasol yn cael eu derbyn, oni bai bod yr ymgeisydd yn medru arddangos yn llwyddiannus na fydd y safle yn ychwanegu at effaith gronnol negyddol ar amcan(ion) trwyddedu.

Mae disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at effeithiau'r Polisi Effaith Gronnol o fewn yr Atodlen Gweithredu. Mae disgwyl iddynt arddangos yn glir na fydd gweithrediadau'r sefydliad yn ychwanegu at effaith gronnol negyddol yr ardal.

Nid yw'r Polisi Effaith Gronnol yn absoliwt. Bydd amgylchiadau pob cais yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun a bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymeradwyo trwyddedau sydd yn annhebygol o ychwanegu at effaith gronnol negyddol yr amcanion trwyddedu.

**F1 2019**